## Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ21937, a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 27 Chwefror 2003**

**I David Melding:**

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 4 Chwefror ynglŷn â'm hateb i'ch cwestiwn llafar. Mae'n ddrwg gennyf am unrhyw ddryswch oherwydd yr ateb a roddais. Mae'r term 'gofal cartref' yn cael ei ddefnyddio ar adegau i gwmpasu pob gwasanaeth gofal cartref a gwasanaethau di-breswyl eraill. Dyna pam y cyfeiriodd fy ateb at wasanaethau yn y gymuned, a oedd yn cynnwys y niferoedd ar gyfer gofal dydd, gofal cartref, prydau a gofal seibiant. O edrych yn fanwl ar eich llythyr, yr wyf yn derbyn eich bod yn gofyn yn fwy penodol am nifer y bobl a dderbyniodd ofal yn eu cartrefi eu hunain.

Deallaf fod diddordeb gennych mewn diweddaru'r tueddiadau a nodwyd yn adroddiadau'r prif arolygydd. Ni fu'n bosibl diweddaru'r holl wybodaeth yn yr adroddiad diweddaraf ar yr un sail â'r llynedd. Mae set newydd o ddata dangosyddion a chytundebau perfformiad ar gael yn yr adroddiad diweddaraf, sy'n rhoi gwell gwybodaeth at ddibenion cymharu rhwng awdurdodau. Er mai data dechreuol y mae'n ei ddarparu eleni, bydd yn sail ar gyfer monitro newid dros y blynyddoedd i ddod, sy'n elfen bwysig o'r ffordd y bydd Arolygiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynd ati i werthuso. Mae tabl 3.2 o adroddiad 2000-01 yn un y bu'n bosibl ei ddiweddaru ac mae'n darparu manylion am lefel y bobl sy'n derbyn gofal cartref. Mae fersiwn wedi'i ddiweddaru wedi'i atgynhyrchu isod.

| Blwyddyn Ariannol | Oriau Gofal Cartref a Ddarparwyd | Pobl sy'n Derbyn Gofal Cartref |
|---|---|---|
| 1996-97 | 12,694,391 | 36,750 |
| 1997-98 | 11,519,027 | 33,078 |
| 1998-99 | 11,337,660 | 29,667 |
| 1999-2000 | 11,634,790 | 29,112 |
| 2000-01 | 12,449,413 | 27,202 |
| 2001-02 | 12,662,500* | 27,882 |

(*Ffigur dros dro) Sylwch fod nifer y bobl oedd yn derbyn gofal cartref yn 2000-01 wedi newid ers yr hyn a gyhoeddwyd yn adroddiad 2000-01 y prif arolygydd.

Dengys gweddill y ffigurau gofal sydd ar gael y bu dirywiad yn nifer y bobl sy'n derbyn gofal cartref, er y peidiodd y gostyngiad hwn dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae i'r sefyllfa gyfredol achosion cymhleth gan gynnwys yr hyn a etifeddwyd o'r sefyllfa fel yr oedd cyn Deddf Gofal yn y Gymuned 1993, pan oedd yr hen system a gâi ei chyllido gan yr Adran Nawdd Cymdeithasol yn tueddu i ffafrio gofal preswyl. Hefyd rhaid ystyried cymhlethdod rhai pecynnau gofal domestig, y sefyllfa amrywiol o ran pa ddarparwyr sydd ar gael, a'r gost gan gynnwys yr effaith pan fo awdurdodau yn gorfod buddsoddi er mwyn diwallu anghenion pobl y mae angen lefelau uchel o ofal arnynt a hynny ar draul pobl sydd ag anghenion llai enbyd.

Mae'r materion hyn yn cael sylw yn adolygiad Wanless a chan grŵp strategaeth gofal Cymru yn ei gyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae gwaith y grŵp wedi nodi'r angen i dorri i mewn i'r cylch a bod angen gweithredu'n fuan i atal neu arafu'r broses o symud pobl i lefel uwch o angen, modelau gofal amgen sy'n cynnwys darpariaeth dai, cynlluniau hunan ofal ac effaith technolegau newydd. Dengys y ffigurau fod rhai awdurdodau yn rheoli'r cydbwysedd gofal yn well nag eraill a byddwn yn ymdrin â hyn mewn adolygiadau arolygu a chanllawiau.

**Gwybodaeth ychwanegol at y cwestiwn atodol i OAQ21492, a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 13 Chwefror 2003**

**I Peter Rogers:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Ionawr, gofynasoch am eglurhad ynglŷn â'r ffenestri talu i gynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru a chyfnod talu Amcan 1 Cyswllt Busnes (grantiau gwella ffermydd a grantiau mentrau fferm). Yn fy llythyr dyddiedig 29 Ionawr fe'ch hysbysais fod y problemau technegol oedd yn gysylltiedig â'r systemau cyfrifiadur newydd yn cael sylw a bod y taliadau yn cyflymu. Amgaeaf yn awr bapur sy'n nodi'r holl ffenestri talu a'r sefyllfa bresennol o ran taliadau yng nghyswllt cynlluniau cymhorthdal y polisi amaethyddol cyffredin a'r cynlluniau y cyfeirioch atynt.

Yr ydych wedi awgrymu bod banciau wedi gwrthod darparu llythyrau caledi lle bo'r taliad sy'n hwyr yn gysylltiedig â chynlluniau lle nad oes ffenestr benodedig gan fod y taliad yn 'ofyniad cyfreithiol neu ddyled'. Yr wyf yn synnu clywed hyn gan fod taliadau o dan y ddarpariaeth galedi eisoes wedi cael eu talu i rai hawlwyr o dan y cynllun amaeth-amgylcheddol.

Efallai y gallech ofyn i'r ffermwyr sydd wedi codi'r mater penodol hwn gyda chi gysylltu â'r llinell gymorth amaethyddol gyda'u manylion fel y gall y swyddogion ganfod ffordd ymlaen mewn achosion o'r fath.

**Taliadau Cymhorthdal fesul Cynllun fel yr oedd ar 11 Chwefror 2003**

**(Mae'r ffigurau a nodir i gyd yn rhai wedi'u modiwleiddio)**

**Y sefyllfa gyffredinol, blwyddyn 2002 y cynllun—erbyn 11 Chwefror, talwyd £84.6 miliwn i ffermwyr yng Nghymru ar ffurf cymorthdaliadau PAC**

**Taliadau arwynebedd tir âr 2002**
**Taliadau oedd yn ddyledus ym mlwyddyn 2002 y cynllun: £10.2 miliwn yn fras**
**Ffenestr dalu: 16 Tachwedd 2002—31 Ionawr 2003 (31 Mawrth mewn achosion lle telir am gnydau nad ydynt yn fwyd)**
**Taliadau a wnaed erbyn diwedd y dydd ar 31 Ionawr 2003 (ffenestr yr Undeb Ewropeaidd): £5.8 miliwn (65 y cant o'r hawliadau)**
**Dechreuodd y taliadau ar 29 Ionawr 2003**

- <u>Taliadau wedi'u gwneud erbyn 11 Chwefror 2003: £6.7 miliwn</u>

**Cynllun premiwm blynyddol defaid 2002 a'r amlen genedlaethol defaid**
**Taliadau oedd yn ddyledus ym mlwyddyn 2002 y cynllun: £65.9 miliwn yn fras**
**Ffenestr dalu: 16 Hydref 2002—31 Mawrth 2003**
**Dechreuodd y taliadau ar 18 Tachwedd 2002**

- <u>Taliadau wedi'u gwneud erbyn 11 Chwefror: £62.9 miliwn</u>

**Atodiad ardal llai ffafriol y cynllun premiwm blynyddol defaid**
**Taliadau oedd yn ddyledus ym mlwyddyn 2002 y cynllun: £18.7 miliwn**
**Ffenestr dalu: 16 Hydref 2002 – 31 Mawrth 2003**
**Dechreuodd y taliadau ar 12 Rhagfyr 2002**

- <u>Taliadau wedi'u gwneud erbyn 11 Chwefror: £9.3 miliwn</u>

**Cynllun premiwm arbennig eidion 2002**
**Taliadau oedd yn ddyledus ym mlwyddyn 2002 y cynllun: £23.8 miliwn yn fras**
**Ffenestr dalu: 16 Hydref 2002—30 Mehefin 2003**
**Dechreuodd y taliadau ar 18 Rhagfyr 2002**

- Blaendaliadau wedi'u gwneud erbyn 11 Chwefror: £5.7 miliwn

**Cynllun premiwm buchod sugno 2002**
**Taliadau oedd yn ddyledus ym mlwyddyn 2002 y cynllun: £28.5 miliwn yn fras**
**Ffenestr dalu: 16 Hydref 2002—30 Mehefin 2003**
Derbyniwyd 6,285 o hawliadau

Nid yw'r gyfundrefn dalu sy'n cael ei datblygu ar gyfer y blaendaliadau hyn ar ei gwedd derfynol eto. Mae yna risg sylweddol na fydd y taliadau yn dechrau am rai wythnosau i mewn i fis Mawrth. Mae llawer yn dibynnu ar lwyddiant profion pellach. Yr ydym yn gwneud popeth posibl i ddod â'r dyddiad cychwyn ar gyfer y taliadau yn ei flaen. Mae'r gofyniad i drawswirio pob hawliad drwy'r system olrhain gwartheg cyn talu hefyd wedi effeithio ar Loegr a'r Alban.

**Tir Mynydd**

Disgwylir talu 80 y cant o'r taliadau elfen 1 erbyn diwedd mis Mawrth fel yn y blynyddoedd blaenorol.

**Cynlluniau amaeth-amgylcheddol a grant gwella ffermydd neu grant mentrau fferm**

**Cynllun coetir ffermydd a chynllun premiwm coetir ffermydd**
**Taliadau oedd yn ddyledus ym mlwyddyn 2002 y cynllun: £430,000 yn fras**
**Ffenestr dalu: 16 Hydref 2002—30 Tachwedd 2002**
**Dechreuwyd prosesu'r taliadau ar 6 Chwefror 2003**
- Taliadau wedi'u gwneud erbyn 11 Chwefror: £243,000

**Cynllun ardal amgylcheddol sensitif**
**Taliadau oedd yn ddyledus ym mlwyddyn 2002 y cynllun: £7,500,000 yn fras**
**Ffenestr dalu: dim ffenestr, taliadau'n ddyledus ar benblwydd y cytundeb**
- Taliadau wedi'u gwneud erbyn 11 Chwefror: £4,000,000 (53 y cant). Amcangyfrif yw hwn.

**Cynefin**
**Taliadau oedd yn ddyledus ym mlwyddyn 2002 y cynllun: £650,000 yn fras**
**Ffenestr dalu: dim ffenestr, taliadau'n ddyledus ar benblwydd y cytundeb**
- Taliadau wedi'u gwneud 11 Chwefror: £350,000 (54 y cant). Disgwylir i'r taliadau ailddechrau yn ddiweddarach y mis hwn.

**Cymorth organig**
**Taliadau oedd yn ddyledus ym mlwyddyn 2002 y cynllun: £50,000 yn fras**
**Ffenestr dalu: dim ffenestr, taliadau'n ddyledus ar benblwydd y cytundeb**
- Taliadau wedi'u gwneud erbyn 11 Chwefror: £25,000 (50 y cant). Disgwylir i'r taliadau ailddechrau yn ddiweddarach y mis hwn.

**Ffermio organig**
**Taliadau oedd yn ddyledus ym mlwyddyn 2002 y cynllun: £3,000,000 yn fras**
**Ffenestr dalu: dim ffenestr, taliadau'n ddyledus ar benblwydd y cytundeb**
- Taliadau wedi'u gwneud erbyn 11 Chwefror: £600,000 (20 y cant). Disgwylir i'r taliadau ailddechrau yn ddiweddarach y mis hwn.

**Cymorth gweundiroedd**
**Taliadau oedd yn ddyledus ym mlwyddyn 2002 y cynllun: £90,000 yn fras**
**Ffenestr dalu: dim ffenestr, taliadau'n ddyledus ar benblwydd y cytundeb**
- Taliadau wedi'u gwneud erbyn 11 Chwefror: £90,000 (100 y cant)

**Grant mentrau fferm a grant gwella ffermydd**

Ailddechreuwyd prosesu taliadau ar 6 Chwefror. Gall hawliadau newydd am grant gwella ffermydd neu grant menter ffermydd gael eu cyflwyno am daliad unrhyw adeg ar ôl i'r ffermwr dalu'r costau. Wedi hynny gall nifer yr hawliadau a ddisgwylir a'r taliadau cysylltiol amrywio o ddydd i ddydd.